

## **Cyfarfod Blynyddol 2021 - Adroddiad yr Ysgrifennydd Gweithgareddau**

Dechreuodd adroddiad y llynedd trwy nodi mai'r gŵyn arferol yw bod adroddiadau bob tro'n debyg iawn i rai'r blynyddoedd blaenorol ond nad oedd hynny'n wir am 2020. Yn anffodus, nid yw'n wir am 2021 chwaith. Ond, er gwaethaf colli bron i bum mis i'r ail Gloi Mawr, llwyddwyd i gynnal 51 o deithiau rhwng rhai'r de a'r gogledd a chanol wythnos.

Mae hynny'n cymharu'n dda efo niferoedd blynyddoedd 'arferol' – 48 taith yn 2017, 44 yn 2018 a 58 yn 2019. Llauer o ddiolch felly i'r rhai hynny a fu'n barod i drefnu ac arwain taith; y chi, mewn gwirionedd, yw'r bobl bwysicaf yn y clwb gan na fyddai gweithgareddau heb eich ymroddiad chi. Ac, yn wyneb y trafferthion cofidaidd, mae angen diolch ychwanegol i chi am fod yn hyblyg a bod yn barod i gydymffurfio â'r amrywiol reoliadau.

Gorfodwyd y clwb i gyfyngu ar niferoedd am gyfnod ac felly trefnwyd, yn aml, fwy nac un taith ar yr un diwrnod neu'r un penwythnos. Roedd cyfle felly i drefnu dwy daith mewn gwahanol ardaloedd neu deithiau oedd yn amrywio o ran hyd neu natur y daith. Profodd hynny'n llwyddiannus gan fod mwy o ddewis i'n haelodau. Pan nad oedd angen cyfyngu ar niferoedd, penderfynwyd dal ati i gynnig yr un amrywiaeth trwy gynnig, yn y gogledd, taith bob penwythnos. Cawn weld a fydd digon o arweinwyr i barhau i wneud hynny.

Mae croeso arbennig i rai sydd heb arwain o'r blaen i gynnig eu hunain. Mae'n brofiad braf gallu cyflwyno cyd-aelodau – ffrindiau'n wir – i un o'ch hoff deithiau ac mae pawb sydd wedi arwain yn gwybod nad ydi arweinydd ar ei ben ei hun; mae pawb yn fwy na pharod i rannu'r cyfrifoldeb ac i gynorthwyo. Ac mae gen i brofiad personol o hynny yn y modd y cydweithiodd pawb mor ragorol i wneud popeth a allent ar y diwrnod trist hwnnw pan gollon ni Gareth, un o'n haelodau mwyaf ffyddlon a brwdfrydig.

Mae rhai aelodau'n mwynhau teithiau mynydd cymedrol ond eraill eisiau teithiau hirach a mwy heriol neu eisiau mwy o sgrialu. Un nodwedd o'r flwyddyn neu ddwy ddiwethaf yw fod amryw o aelodau newydd, llauer ohonynt yn iau na nifer ohonom ni, yr hen do, wedi troi allan yn rheolaidd. Efallai bod yr elfen fwy heriol yn help i'w denu.

Cafwyd ymateb da i gwrs Cymorth Cyntaf a gynhaliwyd yn Llangors ac mae nifer ychwanegol wedi sicrhau cymwyster yn y maews hwnnw.

Byddwn bob amser yn croesawu sylwadau ac awgrymiadau ar gyfer sut y gellir gwella'r ddarpariaeth. Os byddaf yn cael ethol am flwyddyn arall byddwn, yng Nghyfarfod Blynyddol 2022, yn cael cyfle i gyflwyno fy negfed adroddiad fel trefnydd gweithgareddau. Dymunaf felly nodi na fyddwn yn dymuno cael fy ail ethol am gyfnod pellach wedi hynny.

**Eryl Owain**

Hydref 2021